Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board





# Siarter Ysbyty Cyfeillgar i Ddementia

## Gweithredu'r siarter ysbytai cyfeillgar i ddementia.

Gwneud y Siarter Ysbyty Cyfeillgar i Ddementia yn realiti ar draws CTM.

Gwella ein hysbytai drwy:

- Gwerthfawrogi Pobl
- Unigoli gofal
- Deall gofal o safbwynt yr unigolyn a chefnogi ei anghenion cymdeithasol



### BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â DEMENTIA?

Dywedodd pobl â dementia wrthym eu bod nhw eisiau cael profiad gwell yn yr ysbyty. Maen nhw eisiau gweld:

- Dewis o gwmpas amser bwyd.
- Dewis o gwmpas cwsg a deffro.
- Amserau ymweld hyblyg.
- Gofal a thriniaeth sy'n sensitif yn ddiwylliannol (gan gynnwys sylwi ar gynnig y Gymraeg fel dewis).
- Hwyluso teuluoedd a gofalwyr i barhau i gefnogi person â dementia pan fo yn yr ysbyty os yw'n dymuno.
- Addasu amgylcheddau fel eu bod nhw'n fwy 'cefnogol i ddementia' fel ystyried y cynllun a'r arwyddion.



### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

Rydym am wella profiad pobl â dementia pan fyddant yn yr ysbyty.

**Ein bwriad yw gwneud hyn drwy:**

- Gwella ein hamgylcheddau.
- Gwella'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn.
- Monitro a chefnogi staff i wneud gwelliannau.
- Cydlynu symudiad di-dor rhwng ysbytai pan fo angen.

**Parhad trosodd.**

### DYWEDODD POBL

"Dyw'r diagnosis ddim yn diffinio'r person. Mae angen cefnogi pobl i gynnal eu hunaniaeth."

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board





# Siarter Ysbyty Cyfeillgar i Ddementia (Parhad)

**"Mae'n bwysig bod y rhai a effeithir gan ddementia'n cael llais mewn rhoi ffurf ar wasanaethau a chefnogaeth."**



## BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD (PARHAD):

**Ein bwriad yw:**

1. Gweithredu'r offeryn 'gofal addas ar gyfer gwerthoedd, unigolion, safbwyntiau, cymdeithasol (VIPs)' ar draws ein holl ysbytai.
2. Creu tîm mapio gofal dementia.
3. Amlygu pobl â dementia yn ein lleoliadau fel y gallwn eu cefnogi'n well.
4. Gwella ein hamgylchedd i'w gwneud yn fwy ystyriol o ddementia a hygyrch.



## PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd gweithredu'r siarter ysbytai yn llawn yn creu amgylcheddau sy'n ddementia-gyfeillgar i bobl, gan nid yn unig newid y ffordd mae ein hysbytai'n edrych, ond hefyd wella'r gofal a'r profiad i bobl â dementia.

### DYWEDODD POBL

"Dyma gyfle i edrych ar wella gwasanaethau, a'n helpu i feddwl "y tu fas i'r bocs" o ran gyrru newidiadau cadarnhaol ymlaen."

